Cyllid &
Thollau EM

Annwyl gwsmer,

## Mae'r DU yn gadael yr UE ar 31 Ionawr 2020: goblygiadau i'ch busnes

Rydym yn ysgrifennu atoch oherwydd bod eich busnes wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, ac oherwydd eich bod wedi rhoi gwybod i ni fod y busnes yn masnachu rhwng y DU a'r UE. Rydym wedi ysgrifennu atoch o'r blaen ynghylch sut i baratoi'ch busnes ar gyfer trefniadau ffiniau a thollau pan fyddwn yn gadael yr UE. Hoffem ddiolch i chi am y paratoadau yr ydych wedi bod yn eu gwneud dros y flwyddyn ddiwethaf, a hoffem roi gwybod i chi beth fydd yn digwydd nesaf.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl 31 Ionawr 2020?

O 1 Chwefror, ni fydd y DU yn aelod o'r UE mwyach, a byddwn yn dechrau cyfnod gweithredu sy'n para hyd at 31 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd newidiadau i'r telerau ar gyfer masnachu â'r UE na gweddill y byd, oni bai bod y rheolau'n newid ar gyfer yr UE cyfan. Mae hyn yn golygu y bydd rheolau'r UE ar gyfer tollau, TAW ac ecséis yn dal i fod yn berthnasol wrth symud nwyddau a masnachu yn ystod y cyfnod cyfyngedig hwn. Ni fydd gweithdrefnau tollau newydd ar hyn o bryd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl 31 Rhagfyr 2020?

O 1 Ionawr 2021, bydd y ffordd yr ydych yn masnachu â'r UE yn newid, a bydd yn rhaid i chi baratoi ar gyfer bywyd y tu allan i'r UE, gan gynnwys trefniadau tollau newydd. Er enghraifft, er mwyn masnachu rhwng Prydain Fawr (GB) a'r UE, bydd yn rhaid i chi wneud datganiadau tollau i fewnforio ac allforio nwyddau pan fydd y DU y tu allan i diriogaeth tollau'r UE.

Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth ac arweiniad yn ystod y cyfnod gweithredu, ac wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen.

## Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud nawr

- **Cadw llygad ar yr wybodaeth ddiweddaraf**

  Gan eich bod eisoes wedi cofrestru i gael diweddariadau gennym drwy e-bost, byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost yn hytrach nag anfon llythyrau atoch yn y dyfodol.

  Os hoffech barhau i gael llythyrau ar bapur, gallwch roi gwybod i ni drwy ddiweddaru'ch cofrestriad. Ewch i **www.gov.uk/hmrc/business-support** a dewiswch 'Sign up to help and support emails from HMRC'.

- **Gwneud yn siŵr bod gennych eich rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI)**

  Bydd angen rhif EORI yn y DU arnoch, sy'n dechrau gyda'r llythrennau 'GB', i allu cyflwyno datganiadau tollau er mwyn symud nwyddau rhwng GB a'r UE ar ôl i'r cyfnod gweithredu ddod i ben.

  Os oes eisoes gennych rif EORI yn y DU sy'n dechrau gyda 'GB', cadwch hwn yn ddiogel gan y bydd ei angen arnoch pan fydd y cyfnod gweithredu yn dod i ben.

  Os nad oes gennych rif EORI yn y DU sy'n dechrau gyda 'GB', dylech gofrestru ar gyfer un drwy fynd i **www.gov.uk/cael-rhif-eori**. Mae cofrestru'n gyflym ac yn hawdd.

- **Penderfynu sut mae gwneud datganiadau tollau**

  Bydd yn rhaid i chi wneud datganiadau tollau er mwyn mewnforio ac allforio nwyddau rhwng GB a gwledydd yn yr UE pan fyddwn y tu allan i diriogaeth tollau'r UE.

  Os mai dim ond â'r UE yr ydych erioed wedi masnachu, neu os ydych eisoes yn masnachu â gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE ond mae'n rhaid i chi ymestyn neu newid eich prosesau i gwmpasu'ch mewnforion a'ch allforion rhwng GB a'r UE, dylech ddechrau paratoi nawr i wneud datganiadau tollau, drwy benderfynu a ydych am ddefnyddio trydydd parti megis asiant tollau neu wneud datganiadau eich hun.

  Os dewiswch ddefnyddio asiant tollau, dylech ddechrau cysylltu ag asiantau nawr i gael gwybod am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gallwch ddod o hyd i arweiniad drwy fynd i **www.gov.uk/guidance/appoint-someone-to-deal-with-customs-on-your-behalf**. Os ydych am wneud datganiadau eich hun, byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth ac arweiniad yn fuan ynghylch yr hyn y bydd yn rhaid ei wneud. Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am brosesau tollau ar gyfer Gogledd Iwerddon yn fuan.

## Diweddariadau pellach i wasanaethau

Mae cofrestru ar gyfer Gweithdrefnau Symlach Dros Dro (TSP) a'u defnyddio ar gyfer mewnforion o'r UE wedi'i ohirio ar hyn o bryd. Ni fydd yn rhaid i chi ddefnyddio TSP rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2020. Os ydych wedi gwneud cais am y gwasanaeth hwn, cadwch eich gwaith papur yn ddiogel. Yn ogystal, nid yw'r dull cyfrifyddu gohiriedig o ran TAW ar gael am y tro yn ystod y cyfnod gweithredu.

Rydym yn deall efallai y bydd gennych ragor o gwestiynau ynglŷn â'r hyn y bydd yn rhaid i chi ei wneud nesaf. Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth cyn gynted ag y gallwn ynghylch prosesau'r dyfodol o ran mewnforio ac allforio a'r hyn y bydd yn rhaid i chi ei wneud.

Yn gywir

Katherine Green a Sophie Dean

Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Ymadael â'r UE a Ffiniau, CThEM